# CYNNIG AM GROESFANNAU PÂL A THWCAN
# Ffordd Woodstock a Lôn y Felin, Cil-y-coed

Mae Cyngor Sir Fynwy yn cynnig darparu tri chyfleuster croesfan pâl a reolir (cerddwyr yn unig) ac un cyfleuster croesfan twcan newydd (cerddwyr a seiclwyr) ar Ffordd Woodstock a Lôn y Felin, Cil-y-coed. Cynigir lleoli'r croesfannau ar y gyffordd rhwng Ffordd Woodstock a Lôn y Felin, Cil-y-coed a byddant yn rhan o drefniant cyffordd gyda signalau

Gellir archwilio Cynllun ar-lein yn dangos lleoliad y croesfannau a gynigir yn http://www.monmouthshire.gov.uk/public-consultation-traffic. Gellir hefyd weld y dudalen gwefan drwy sganio'r cod QR isod.

Gall unrhyw berson sy'n dymuno cyflwyno sylwadau ynghylch y cynnig hwn wneud hynny drwy fynd i http://www.monmouthshire.gov.uk/public-consultation-traffic neu sganio'r cod QR isod a dewis "Sut i roi sylwadau ar gynnig am Orchymyn Rheoli Traffig", lle gellir hefyd gyrchu'r ffurflen ymateb ymgynghoriad cyhoeddus.

Yn lle hynny gellir anfon datganiad ysgrifenedig o'r gwrthwynebiadau gan nodi ar ba sail y cânt eu gwneud at yr Adran Traffig, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Brynbuga NP15 1GA. Dylid derbyn unrhyw sylwadau yn ddim hwyrach na 17:00 ddydd Mercher 8 Ionawr 2025.

Bydd Cyngor Sir Fynwy yn ystyried gwrthwynebiadau a sylwadau a geir mewn ymateb i'r Hysbysiad hwn. Gellir eu lledaenu'n eang ar gyfer y dibenion hyn a byddant ar gael i'r cyhoedd.

**Dyddiad: 11 Rhagfyr 2024**

**Carl Touhig**
**Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth**
**Cyngor Sir Fynwy**